
# Baban Moses



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Mae ein gwers wythnos yma yn edrych ar stori'r baban Moses. Gallwch ddarllen y darn yn Exodus Pennod 2. Meddyliwch am ddweud y stori ar lan afon leol er mwyn helpu eich plentyn weld yr olygfa yn ei feddwl. Dyma rhai o'r pwyntiau byddwn yn archwilio heddiw:



- Teuluoedd yn gofalu am ei gilydd.
- Mae Duw yn gwylio drosom ac yn ein hamddiffyn.
- Gallwn ymddiried yn Nuw.

## Canllaw'r wers

Atgoffwch y plentyn o'r wers wythnos diwethaf am Joseff. Eglurwch mai plant Israel yw ei deulu oedd wedi dod i fyw yn yr Aifft, ond mae bron i bedwar can mlynedd wedi mynd heibio.



Gofynnwch i'ch plentyn os ydynt erioed wedi cuddio rhywbeth i'w gadw'n ddiogel. Pwyntiwch allan y ffyrdd rydych yn cadw pethau'n ddiogel fel cloi eich tŷ neu eich car.

I arddangos y ffordd rhoddodd mam Moses e mewn basged gwrthddwr, gallwch wneud arbrawf bach. Byddwch angen cerrig neu bethau eraill sy'n suddo, ffoil, a bisgedi siâp anifeiliaid.

Llenwch fowlen gyda dŵr (neu defnyddiwch fasddwr wrth ochr afon). Cymerwch fisged anifail a'i ollwng yn y dŵr. Dangoswch fel nad yw wedi ei amddiffyn rhag y dŵr. Rhowch fisged ar garreg. Gofynnwch i'r plentyn os yw'n edrych yn ddiogel. Gollyngwch gerigyn i mewn i'r dŵr a dangoswch i'r plentyn nad oedd y fisged yn saff.



Crëwch gwch syml mas o'r ffoil (neu plygwch gwch bapur). Dangoswch i'r plentyn bod y bisgedi yn saff a diogel yn y cwch yn arnofio ar y dŵr.

Gofynnwch i'r plentyn feddwl am rhai ffyrdd byddwch yn ei gadw'n ddiogel. Atgoffwch y plentyn bod gofyn iddo roi cot ymlaen yn ffordd o'i amddiffyn rhag bod yn oer. Eglurwch fod defnyddio sedd arbennig yn ffordd o'i gadw'n ddiogel yn y car. Dywedwch wrth y plentyn bod cadw nhw'n ddiogel yn dangos cymaint rydych yn ei garu ac yn gofalu amdano.



Eglurwch rhai o'r ffyrdd mae Duw yn gofalu amdanom. Yr haul. Glaw. Ayb. Dangoswch fel oedd Duw yn ei amddiffyn trwy ei roi i chi i'w gadw'n saff.

© 2022 truewaykids.com



Rhedodd Miriam ati. “Hoffech i mi gael rhywun i ofalu am y babi?” “Ie..”


Galwodd Miriam ei mhâm.

Aeth Jochabed a’i babi adref a gofalodd amdano nes oedd yn hun.

Wedyn aeth ag ef at ferch Ffaro.

Galwodd merch Ffaro’r babi yn Moses.






Anghofiodd y bobl yn yr Aifft bopeth am Joseff a sut oedd wedi eu helpu.

Cafodd un Ffaro syniad drwg. Dywedodd, “mae 'na ormod o Iddewon. Dylem eu gwneud yn gaethweision.” Ac felly y bu.

Ond dim ond tyfu’n fwy gwnaeth yr Iddewon.

Cafodd y Ffaro syniad gwaeth. “Dylwn frifo’r babanod Iddewig sy’n fechgyn i gyd.”



Roedd y mamau mor drist.

Jochebed oedd un o’r mamau. Cafodd hi fab.

Cuddiodd ei baban. Ond ni fedrai ei guddio am byth.

Rhoddodd ei babi mewn basged.

Cuddiodd Jochebed y fasged yn y brwyn ar yr afon Nîl.





Roedd gan y babi chwaer o’r enw Miriam.

Gwyliodd Miriam y fasged.

Aeth merch Ffaro i’r afon i gael bath.

Sylwodd ar y fasged yn y brwyn.

Pan welodd y babi, teimlodd yn flin drosto.

Roedd eisiau cadw’r babi fel un hi.

# Chwaraeon a Gweithgareddau


## Gwneud cwch

Defnyddiwch rhai gwrthrychau ailgylchu i wneud cwch fel tegan i'ch plentyn.

Gall fod yn unrhyw beth o gwch papur syml i rai poteli plastig gwag wedi tapio gyda'i gilydd. Peidiwch fod ofn gadael i'ch plentyn wneud camgymeriadau. Gallwch wella'r dyluniad gyda'ch gilydd.



## Natur arnofio neu suddo



Dydi plant byth yn blino gyda'r arbrawf syml yma. Os gwnaethoch y gweithgaredd yma yn ystod y wers am Noa, ceisiwch ddarganfod eitemau newydd i'w profi.

Os ydych tu allan, ceisiwch ddod o hyd i eitemau natur i'w rhoi mewn llyn neu afon. Rhai esiamplau yw cerrig, dail, brigyn, blodau, mwd ayb.

## Cwympo wy

Rhybudd: gall y gweithgaredd hwn fod ychydig yn anniben.

I ddangos sut ydym yn amddiffyn pethau, lapiwch wy mewn bubble wrap a'i ollwng o uchder.


Edrychwch pa mor uchel gallwch ei gwympo heb iddo gracio. Meddyliwch am ffyrdd gwell i'w amddiffyn.




© 2022 truewaykids.com


# Suddo neu arnofio


Ticiwch yr eitemau sy'n arnofio.


























© 2022 truewaykids.com


# Edrychwch am 5 gwahaniaeth






© 2022 truewaykids.com



# I ymarfer rheolaeth eich pensil tynnwch lun rhai donnau'r môr






© 2022 truewaykids.com

# Rhowch gylch o gwmpas yr eitemau i fabi







© 2022 truewaykids.com

# Crefft basged Moses


Crefft plethu hawdd i'w wneud

## Pethau byddwch angen:


- Templed
- Cerdyn gwyn
- Siswrn
- Glud
- Papur lliw
- Pensiliau lliw




## Beth i'w wneud:



Am y canlyniadau gorau defnyddiwch cerdyn gwyn. Lliwiwch y llun.




Torrwch ar hyd y llinellau torredig. Torrwch stribedi o bapur.



Plethwch stribedi o bapur. Gludwch y darnau gorgyffyrddol.


https://youtu.be/Q6Cs5roiHFQ


© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

© 2022 truewaykids.com






© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

# Amser addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## God Always Keeps His Promises

https://youtu.be/WzrFkvn1LGg

## Do Not Give Up

https://youtu.be/EPqPcQjHDwg

## When I Look


https://youtu.be/4iW9MN7vMpQ

# Gweddi

Diolchwch i Dduw am y ffordd y mae yn eich hamddiffyn. Gofynnwch Iddo eich helpu i ymddiried Ynddo am y pethau rydych yn caru mwyaf.

## Wythnos nesaf

## Moses a'r berth tanllyd




Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com